# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion Cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf, 2024 a gynhaliwyd am 10.00 a.m.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Presennol: R. Hendicott (Cadeirydd); Y Cynghorwyr R.M. Birch, J.E. Charles a C.P. Franks; G. Olphert a G. Watkins (Aelodau Annibynnol); a'r Cynghorydd P. Summers (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd V.P. Driscoll a'i gynnrychiolwyr, Mr. Joseph Broadway a Mr. Mr. Gwydion Hughes a Ms. Heather Coutanche (yn cynrychioli Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru).

## 288 CYHOEDDIAD –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w weld yn y dyfodol.”

## 289 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth L. Tinsley (Is-Gadeirydd) ac R. Alexander (Aelodau Annibynnol).

## 290 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 291 ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD V.P. DRISCOLL MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR BRO MORGANNWG (SM/PGCD) –

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain gan roi gwybod y byddai'r weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad yn cael ei chynnal yn unol â'r weithdrefn wedi’i hamlinellu yn yr agenda ac a oedd wedi'i hanfon ymlaen at bob parti.

Dywedodd y Cadeirydd fod datganiad safbwynt yr amddiffyniaeth wedi'i dderbyn a'i fod ynghlwm yn Atodiad 3 y bwndel o bapurau ac roedd ymateb yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r safbwynt hwnnw ynghlwm yn Atodiad 4. Wrth ystyried y ddogfen, nodwyd bod yr amddiffyniaeth wedi datgan os yw'r Pwyllgor Safonau yn

dymuno dibynnu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Mr. Tooby yna dylid galw Mr Tooby fel tyst. Fodd bynnag, roedd ymateb yr Ombwdsmon wedi datgan nad oeddent wedi dibynnu ar dystiolaeth Mr. Tooby wrth ystyried canlyniad yr ymchwiliad ac felly derbyniwyd na fyddai tystiolaeth Mr Tooby yn cael ei hystyried.

Wrth dderbyn nad oedd unrhyw anghytundebau yr oedd angen eu datrys ynghylch sut y byddai'r gwrandawiad yn mynd rhagddo, cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ail gam a oedd yn ymwneud â chanfyddiadau ffeithiol ac a oedd unrhyw anghytundebau sylweddol ynghylch y ffeithiau a gynhwyswyd yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

Wrth wneud sylwadau ynghylch a oedd unrhyw dystion yn debygol o gael eu galw, dywedodd y Cadeirydd y gellir eu galw yn ôl yr angen. Byddai'r ddau barti'n gallu gofyn cwestiynau i'w gilydd a byddai Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael yr un cyfle a byddent yn cael cyfle i herio unrhyw dystiolaeth. Dywedodd Mr Broadway fod ganddo rai cwestiynau i'r Ombwdsmon yn gyntaf o ran y pryderon a fynegwyd gan yr Ombwdsmon ynghylch defnydd y Cynghorydd Driscoll o'i gyfeiriad e-bost Bro Morgannwg ar gyfer busnes personol. Dywedodd Mr Broadway fod hyn wedi'i wneud yn anfwriadol a nodwyd bod hawl gan y Cynghorydd Driscoll i ddefnyddio cyfeiriad e-bost y Cyngor ar gyfer busnes y Cyngor ond nid ar gyfer busnes personol.

Yna holodd Mr. Broadway am yr hyfforddiant Cod Ymddygiad a oedd yn cael ei gynnig i Gynghorwyr a chyfeiriodd at dudalen 32 y bwndel o bapurau a oedd yn cynnwys sleidiau hyfforddiant ac roedd yn dymuno egluro mai dyma oedd maint llawn yr hyfforddiant a oedd yn cael ei gynnig i Gynghorwyr. Dywedodd y Cynghorydd Birch fod yr hyfforddiant gorfodol wedi'i roi i bob Aelod Etholedig yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol a nododd hefyd fod Aelodau'r Cyngor wedi derbyn hyfforddiant yn hyn o beth yn flaenorol yn dilyn pob etholiad ac fel rhan o'r rhaglen sefydlu. Cyfeiriodd Mr. Broadway hefyd at yr hyfforddiant ynglŷn â chysylltiadau personol agos, gan nodi bod rhai mathau o fuddiannau i'w datgan wrth sefydlu a rhai yn nes ymlaen. Cyfeiriodd Mr. Broadway at y ffaith bod yn rhaid cofrestru rhai buddiannau o fewn 28 diwrnod wedi penodi a buddiannau newydd eraill o fewn 28 diwrnod wedi iddynt godi yn ogystal â datgan buddiannau ynghylch eitemau ar agenda yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Cyngor. Cadarnhaodd Aelodau eraill o'r Pwyllgor hefyd fod hyfforddiant Cod Ymddygiad yn cael ei roi gan y Swyddog Monitro a bod hyfforddiant yn cael ei roi i Gynghorau Tref a Chymuned gan arwain at nifer o achlysuron lle byddai'r Cynghorydd Driscoll wedi bod yn rhan o hyfforddiant.

O ran 3 Lombard Street, dywedodd mai buddiant gwraig y Cynghorydd Driscoll yn unig oedd y buddiant hwn. Ni dderbyniodd y Cynghorydd Driscoll unrhyw fuddiant buddiol o hyn, a byddai wedi gorfod cofnodi hyn yn y Gofrestr Buddiannau dim ond pe bai ganddo fuddiant buddiol ynddo. Gofynnodd a oedd yr Ombwdsmon yn ymwybodol a oedd unrhyw hyfforddiant Cod Ymddygiad ffurfiol pellach yn cael ei roi a dywedodd cynrychiolydd yr Ombwdsmon na fyddai Swyddfa'r Ombwdsmon ei hun yn rhoi hyfforddiant o'r fath ond y byddai'n rhoi arweiniad ar y Cod a oedd ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled pe bai angen.

Wrth gyfeirio at y ddarpariaeth yn y Cod Aelodau na ddylai Aelodau yn rhinwedd eu swydd awdurdodi eraill i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor gan ddatgan yn annoeth y

byddai'n arsylwad teg y byddai angen i unrhyw Aelod roi gwybod am unrhyw ymdrechion anghyfreithlon, er enghraifft i denant gael adnoddau'r Cyngor ac er ei fod yn fater o ddehongli, byddai'n darllen na ddylech awdurdodi eraill i ddefnyddio offer yr Awdurdod ac felly ni fyddai'n anfoesegol i Gynghorydd adrodd materion sy'n peri pryder felly.

Dywedodd cynrychiolydd yr Ombwdsmon y byddai'n rhesymol dod i'r casgliad mai'r e-byst a anfonwyd yn adrodd am weithgarwch anghyfreithlon fyddai busnes y Cyngor ond bod yr e-byst eraill yr oedd y Cynghorydd Driscoll wedi'u hanfon yn ymwneud â busnes personol ac nid busnes Cyngor Bro Morgannwg. Mr Broadway, wrth gyfeirio at y ffaith bod les ffug wedi'i chreu, dywedodd cynrychiolydd yr Ombwdsmon nad oedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol wedi ei hystyried yn les ffug, er nad oedd ganddo gopi o'r les o'i flaen dywedodd ymhellach ei bod yn ymddangos bod gwrthddywediad o ran yr hyn a ddywedwyd wrth Swyddfa'r Ombwdsmon a'r hyn a ddywedwyd wrth yr Archwiliwr Mewnol.

Yn ystod y sesiwn holi, dywedodd y Cynghorydd Driscoll nad oedd wedi cael unrhyw wybodaeth ar y pryd ynglŷn â'r hyn yr oedd yn mynd i gael ei holi arno mewn perthynas â'r ymholiadau Archwilio Mewnol a hefyd pan gafodd ei holi gan yr Ombwdsmon a, gan ei fod yn berchen ar gymaint o eiddo, na allai gofio popeth yn fanwl ac y byddai wedi gorfod edrych ar ei waith papur. Mewn gwirionedd, dywedodd fod cofio lesoedd a dyddiadau ac amseroedd yn gywir yn eithaf anodd.

Yna dechreuodd yr Ombwdsmon ei sylwadau trwy gyfeirio at ddod o hyd i ffeithiau mewn perthynas â'r eiddo a oedd yn gysylltiedig â’r adroddiad ar yr ymchwiliad gyda'r Ombwdsmon yn dweud, mewn perthynas â 50c Heol Holltwn, ei bod yn amlwg o'r dystiolaeth fod y Cynghorydd Driscoll yn berchen ar 51% a'i wraig 49%, gan ystyried datganiad blynyddol a ffeiliwyd yn 2015 gyda Thŷ'r Cwmnïau. At hynny, nodwyd bod Fresh Bacon Co. Ltd. yn gwmni gwirioneddol yr oedd y Cynghorydd Driscoll yn gyfranddaliwr o bwys ar ei gyfer.

Dywedodd y Cynghorydd Driscoll, mewn perthynas â safle Heol Holltwn, pan oedd yr unedau'n wag, ei fod ef a'i wraig yn eu defnyddio fel eu swyddfeydd eu hunain. Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Ombwdsmon Mr Hughes hefyd at y les a nodwyd yn y gwaith papur, gan ddweud y dylai'r Cynghorydd Driscoll fod wedi rhoi gwybod i'r Cyngor pwy oedd yn meddiannu'r safle. Pe bai eiddo a oedd yn eiddo i'r Cynghorydd Driscoll fel rhydd-ddaliad yn cael ei osod i endid busnes arall, yna byddai'r busnes hwnnw'n dod yn denant a byddai'n atebol am ardrethi busnes annomestig. Ar ben hynny, holodd y dyddiad y meddiannodd y Cynghorydd Driscoll y safle a oedd yn ymddangos yn wahanol i'r hyn a roddwyd yn y pecyn tystiolaeth ac, felly, roedd gwybodaeth anghyson wedi'i rhoi i'r Awdurdod Lleol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Driscoll mai 11 Mawrth oedd y dyddiad y bu'n meddiannu'r eiddo, er nad oedd yn awgrymu eu bod yn masnachu yno ac efallai y dylai'r cwestiwn ar y ffurflen gais fod wedi gofyn hynny yn lle. Fodd bynnag, dywedodd Mr Hughes ei bod yn wybodaeth yr oedd gofyn i'r Cynghorydd Driscoll ei chyflwyno a oedd yn ymddangos yn groes. Yna, cyfeiriodd Mr Hughes at e-byst gyda Laura Collins yn Nhîm Grantiau Busnes y Cyngor. Cydnabu’r Cynghorydd Driscoll fod y rhain ar ei gyfeiriad e-bost Bro Morgannwg ac na ddylai hynny fod wedi digwydd. Gofynnodd i'r Cynghorydd Driscoll a oedd yn derbyn bod hyn yn bersonol

iddo'i hun ac nad yn fusnes y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Driscoll fod defnyddio e-byst y Cyngor yn amhriodol, gan ddweud ei fod wedi eu defnyddio'n anfwriadol ac ymddiheurodd am hynny. Yna, cyfeiriodd Mr Hughes at y cais am grant ac o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, awgrymodd fod y Cynghorydd Driscoll yn fodlon derbyn ildio'r les benodol am fod grant posibl o £10,000 ar gael. Holodd y Cynghorydd Driscoll rai o'r dyddiadau gan ddweud nad oedd yn credu bod y grantiau ar gael ar 12 Mawrth, a bod canllawiau'r Swyddfa Gymreig wedi'u hanfon at fusnesau o ran y grantiau a oedd ar gael i fusnesau yn ystod pandemig y Coronafeirws. Cyfeiriodd Mr. Hughes hefyd at y ffaith nad oedd y Cynghorydd Driscoll wedi rhoi gwybod i’r Cyngor o'r newid perchnogaeth ac er i'r Cynghorydd Driscoll ddweud bod e-bost wedi ei anfon, nid oedd tystiolaeth bod un wedi ei anfon ac nid oedd tystiolaeth wedi’i chyflwyno yn y ddogfennaeth nac yn y cyfarfod i newid y ffaith hon.

O ran 50c Heol Holltwn a phwy a oedd yn meddiannu'r safle, unwaith eto dywedodd Mr Hughes nad oedd y dystiolaeth wedi’i rhoi i'r Awdurdod Lleol. O ran un cais, dywedodd y Cynghorydd Driscoll fod Mr Tucker yn meddiannu’r eiddo ym mis Chwefror 2018 ond yna ar 1 Ebrill gwnaeth y Cynghorydd Driscoll gais am grant ar gyfer yr eiddo hwnnw, ac felly roedd y ddau fersiwn yn anghyson oherwydd bod y Cynghorydd Driscoll wedi rhoi gwybod i’r Swyddfa Grantiau ei fod wedi bod yn meddiannu’r eiddo ers 1 Ebrill 2017. Hefyd, yn ôl cofnodion Tŷ'r Cwmnïau, roedd y Cynghorydd Driscoll wedi’i gofrestru ar gyfer 50c Heol Holltwn a oedd yn eiddo i Fresh Bacon Co. Ltd. Roedd y Cynghorydd Driscoll yn gyfranddaliwr o bwys yma ac eto nid oedd hyn wedi'i gofrestru yn y Gofrestr Buddiannau. Dywedodd y Cynghorydd Driscoll, mewn ymateb, nad oedd erioed wedi meddwl bod angen iddo ei wneud gan ei fod yn credu bod y les wedi dod i ben a'i fod wedi rhoi'r gorau i dalu rhent i'w wraig.

Wrth gyfeirio at y les ffug, awgrymodd Mr Hughes fod y Cynghorydd Driscoll wedi mabwysiadu ymagwedd eithaf cafaliraidd tuag at ei Gofrestr Buddiannau ac nad oedd yn cymhwyso ei feddwl yn ddigon gofalus wrth ystyried ffactorau o'r fath. Dywedodd y Cynghorydd Driscoll, yn ei amddiffyniad, yn ei farn ef, nad ei fuddiannau ef oedd buddiannau ei wraig a chan nad oedd yn elwa, nid oedd yn ystyried bod angen eu cofrestru. Roedd hefyd wedi bod yn rhan o gasglu'r rhent ar gyfer y les ar gyfer Vale Foods, er mai les ei wraig oedd hyn, gwnaeth lawer o'r gwaith i'w wraig a llofnodi dogfennau gyda'i chaniatâd.

O ystyried yr ail les gan Vale Foods, cadarnhaodd y Cynghorydd Driscoll unwaith eto mai ffugiad oedd hwn. Gwnaeth drafod gyda'r tenant ei fil trydan a dweud y byddai'n darparu les bellach iddo wneud hawliad oddi wrth y cwmni yswiriant yn dilyn y llifogydd a oedd wedi difrodi'r eiddo ond roedd y les a oedd yn y papurau yn ffugiad gan nad oedd yn cytuno â dogfennau eraill a baratowyd gan y Cynghorydd Driscoll ar gyfer lesoedd i bobl eraill.

Cyfeiriodd Mr Hughes at ddifaterwch y Cynghorydd Driscoll ynglŷn â chyfreithlondeb y sefyllfa a gafodd ei hun ynddi ar y pryd ac, yn benodol, o ran y les ar gyfer Vale Foods, roedd ganddo les o hyd er bod y Cynghorydd Driscoll yn dweud nad oedd yn defnyddio'r eiddo, roedd y les yn dal yn ei lle ac ni fyddai gan y Cynghorydd Driscoll hawl i fynd i mewn i'r eiddo pe bai'r les yn dal yn ei lle. Roedd anghysondebau hefyd yng nghyfrif y Cynghorydd Driscoll o ddigwyddiadau amrywiol a’i fod yn benodol

wedi herio hawl Vale Foods i gael grant ond ei fod ei hun wedi derbyn taliad rhent ac felly wedi colli'r cyfle i fforffedu'r les.

Yn dilyn seibiant cysur byr, dychwelodd y Pwyllgor a rhoddwyd cyfle i Mr Broadway i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd yr Ombwdsmon. Dywedodd Mr Broadway, wrth gyfeirio at yr e-byst a anfonwyd o ddyfais Bro Morgannwg y Cynghorydd Driscoll, o'r 50 i 60 o e-byst a anfonwyd, mai dim ond 4 wedi'u hanfon o'i ddyfais Bro Morgannwg. O ran y busnes yn cael ei feddiannu, gofynnodd i'r Cynghorydd Driscoll beth oedd hynny'n ei olygu iddo wrth wneud cais. Ymateb y Cynghorydd Driscoll oedd nad oedd unrhyw eglurder gwirioneddol yn y ffurflenni felly fe wnes i gais ond cefais fy ngwrthod ar y sail ei bod yn siop llawn offer a'u bod yn bwriadu agor yn fuan iawn. O ran Lombard Street, dywedodd ei fod wedi helpu ei wraig trwy roi pethau yn ei enw ar e-byst ond mai ei safle hi'n llwyr oedd y safle.

Dywedodd Mr Hughes mewn ymateb fod y Cyngor wedi cael gwybod yn 2018 pwy oedd yn meddiannu'r eiddo a bod y gwahaniaeth yn yr hyn a ddywedwyd wrth y Cyngor yn y cyfnod hwnnw a phryd y gwnaed y cais am grant yn anfoddhaol. Roedd yn bwysig bod y Cyngor yn cael gwybod pwy oedd yn meddiannu 50c Heol Holltwn, defnyddiodd y Cynghorydd gyfeiriadau e-bost y Cyngor i fynd ar drywydd y grant ac iddo ef roedd yn gyferbyniad rhwng yr hyn a ddywedwyd wrth y Cyngor yn 2018 a'r hyn a ddywedwyd wrth y Cyngor yn y cais am grant a oedd yn anghyson. Roedd Fresh Bacon Co. Ltd wedi bod yn meddiannu'r eiddo ers mis Ebrill 2017 ac roedd o'r farn bod agwedd gafaliraidd o ran yr hyn yr oedd y Cynghorydd Driscoll wedi rhoi gwybod i'r Cyngor amdano. Unwaith eto yn Biglis House dywedodd nad oedd unrhyw fuddiannau ynddo ond bod les Cofrestrfa Tir a oedd yn dweud bod y Cynghorydd Driscoll yn gyfranddaliwr o bwys ar gyfer yr eiddo hwnnw. Derbyniodd Mr Hughes yn rhwydd fod y ddogfen a gynhyrchwyd gan Mr. Tucker y cyfeiriwyd ati fel ffugiad, yn ddogfen ryfedd iawn. Fodd bynnag, dywedwyd bod llofnod y Cynghorydd Driscoll arni ac na chafwyd awgrym i'r Archwilydd Mewnol fod hyn yn ffug wrth gael ei holi ar y pryd ac nad oedd les arall wedi'i chynhyrchu a roddwyd i'r cwmni fel tystiolaeth. Roedd y les newydd yr oedd y Cynghorydd Driscoll wedi dweud ei bod wedi cael ei rhoi er mwyn helpu Mr Tucker gyda phroblem gyda'i gyfrif trydan. Dywedodd Mr Broadway fod Mr Tucker wedi darparu tyst ond na fyddai'n mynychu'r gwrandawiad ac felly ni ellid cyflwyno'r datganiad tyst i'r Pwyllgor fel tystiolaeth. Cyfeiriodd Mr Hughes hefyd at gyfriflenni banc lle'r oedd arian yn mynd i mewn i'r cyfrif mewn perthynas â Fresh Bacon Co. Ltd. o Vale Foods ac felly dangosodd hyn fod Vale Foods yn dal i redeg les gyda'r Cynghorydd Driscoll ar 6 Ebrill.

Ar ddiwedd y cyflwyniadau, aeth y Pwyllgor i sesiwn breifat i ystyried materion ffeithiol. Ar ôl dychwelyd, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod yr Ombwdsmon wedi sefydlu'r ffeithiau mewn perthynas â'r e-byst mewn perthynas â 50c Heol Holltwn a Bigliss House ond nid 3 Lombard Street ac felly roedd yn rhaid i'r Pwyllgor symud i'r trydydd cam i benderfynu a oedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod ar sail y ffeithiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Ar y pwynt hwn gofynnodd y Pwyllgor Safonau am egwyl dros ginio. Ar ôl dychwelyd roedd angen i'r Pwyllgor Safonau benderfynu a oedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod ac yn yr achos hwnnw gwahoddwyd Mr. Hughes a Mr. Broadway i gyflwyno eu sylwadau.

O ystyried y canfyddiadau ffeithiol, cadarnhaodd cynrychiolydd y Cynghorydd a oedd yn rhan o'r ymchwiliad fod e-byst o fewn y dogfennau yr oedd y Cynghorydd Driscoll wedi derbyn ei fod wedi defnyddio ei gyfeiriad e-bost Cynghorydd yn anfwriadol ar eu cyfer a derbyniwyd hynny.

Manteisiodd Mr. Hughes, wrth gyflwyno ei sylwadau, ar y cyfle i roi gwybod bod y paragraffau yn y Cod Ymddygiad y cyfeiriodd yr Ombwdsmon ato drwy gydol ei adroddiad ar yr ymchwiliad yn ymwneud â'r Cod Enghreifftiol tra bod y Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan Fro Morgannwg yn y Cyfansoddiad â gwahanol rifau paragraffau. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd er eglurder fod y rhifau paragraffau sy'n ymwneud â Chod y Cyngor wedi cael sylw yn yr adroddiad eglurhaol o fewn agenda'r adroddiad ar yr ymchwiliad.

Crynhodd Mr Hughes gynnwys yr adroddiad ar yr ymchwiliad gan ddechrau gyda defnydd y Cynghorydd Driscoll o'i gyfrif e-bost ar gyfer buddiannau personol, gan dynnu sylw at y ffaith bod y cyntaf yn ymwneud ag 8 Ebrill 2017 a Biglis Road a'r ail ag e-bost 24 Ebrill a'r e-byst mewn perthynas â'i geisiadau am gyllid grant sydd, er y gallai'r cyfrif e-bost fod wedi cael ei ddefnyddio'n anfwriadol, yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri serch hynny. Roedd y toriad awgrymedig yn ymwneud â'r ffaith bod 'rhaid i chi beidio â defnyddio nac awdurdodi eraill i ddefnyddio adnoddau awdurdod yn annoeth ac nad ydych yn dwyn anfri ar eich awdurdod." Yn sicr, roedd yn fater i'r Pwyllgor ei ystyried, fodd bynnag, roedd yn cyflwyno'r toriadau awgrymedig hyn i'r Pwyllgor eu hystyried. Roedd hefyd achosion o dorri datganiadau buddiannau a dylai'r Cynghorydd Driscoll wrth ddod yn Gynghorydd yn 2017 fod wedi cofrestru'r buddiannau hynny. Roedd y methiant i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am feddiannaeth yr eiddo hefyd yn gyfystyr â thoriad ac unwaith eto yn dwyn anfri ar swydd awdurdod. Roedd hyn meddai hefyd yn cael ei adlewyrchu yn Adroddiad Archwilio'r Cyngor.

Dywedodd Mr Broadway mewn ymateb nad oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd Driscoll wedi ceisio rhoi pwysau amhriodol ar aelodau'r tîm ardreth annomestig genedlaethol ac nad oedd tystiolaeth gerbron y Pwyllgor bod unrhyw bryderon wedi'u mynegi am unrhyw gyfathrebu a dderbyniwyd gan aelodau'r tîm hwnnw. Dywedodd fod y Cynghorydd wedi bod yn gynghorydd ers dros saith mlynedd a'i bod yn annhebygol na fyddai'r staff yn gwybod pwy oedd e, waeth a oedd yn defnyddio ei gyfeiriad e-bost personol neu breifat. Dywedodd unwaith eto y dylid nodi, o'r 40 – 60 o e-byst a anfonwyd, mai dim ond pedwar o'r rheiny a oedd o gyfeiriad e-bost y Cynghorydd Driscoll ac y byddai'n awgrymu bod hyn yn arwydd bod y rhain yn e-byst a oedd wedi cael eu hanfon yn anfwriadol ac roedd y ffaith bod dim ond pedwar yn dystiolaeth ei hun a byddai mewn gwirionedd yn rhoi mwy o bwys i'r ffaith eu bod wedi cael eu hanfon yn anfwriadol.

O ran yr e-bost ynglŷn â'r hawliad Coronafeirws, dywedodd fod hyn yn arbennig o ddiniwed ac mewn gwirionedd yn gysylltiedig ag ymholiad ynghylch a oedd grant ar gael ai peidio. Roedd y Cynghorydd Driscoll hefyd wedi dweud wrth y swyddog y gallai fod hawliad cyfreithiol posib ac roedd yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd i gynghori'r Cyngor. Roedd yn credu bod dyletswydd arno i adrodd hynny gan y byddai'n amhriodol peidio â hysbysu'r Cyngor am achos posibl o

gamddefnyddio arian a'i farn ef oedd na fyddai hyn yn arwydd o rywun yn ceisio ennill mantais. Derbyniwyd bod e-byst wedi cael eu hanfon o'i gyfrif Bro Morgannwg ac na ddylen nhw fod wedi cael eu hanfon ond cawson nhw eu hanfon yn anfwriadol.

O ran cofrestru ased, dywedodd y Cynghorydd Driscoll mai'r rheswm nad oedd wedi datgan un o'r eiddo oedd mewn perthynas â'r ffaith ei fod yn credu bod y les wedi cael ei therfynu. Nid oedd yn ymwybodol bod y les yn dal i fodoli ac nad oedd unrhyw fanteision ariannol iddo o gwbl bryd hynny.

O ystyried y ffaith bod y tir yn dal i gael ei gofrestru yn enw'r Cynghorydd Driscoll dywedodd nad oedd ganddo unrhyw syniad bod hynny'n dal i fodoli a chyn gynted ag y daeth yn ymwybodol o'r les, daeth â hi i ben. Dywedodd nad oedd ganddo fudd ariannol gyda busnes ei wraig ac y byddai'n ei helpu dim ond yn ôl yr angen. Eiddo ei wraig oedd ef wedi'i berchen a'i lofnodi ganddi hi; fodd bynnag, gwnaeth ar sawl achlysur gynnig i'w chynorthwyo gyda rhywfaint o fusnes gan ei fod yn fwy ymwybodol o'r prosesau sydd ar waith ac roedd hi wedi rhoi caniatâd iddo ddelio â materion o'r fath. O ystyried y ffaith mai eiddo ei wraig oedd e, gwnaeth Mr. Hughes, gyfaddef y byddai'n anodd dod o hyd i'r hyn a oedd yn fuddiant buddiol mewn senarios o'r fath ac yn yr achos hwn nid oedd o reidrwydd yn ddatganiad a oedd yn ofynnol oni bai bod penderfyniad y Cyngor yn chwarae rhan. Honnodd yr adroddiad ar yr ymchwiliad hefyd fod y Cynghorydd Driscoll yn ceisio ennill mantais iddo'i hun trwy roi gwybodaeth gamarweiniol am feddiannaeth 5 Biglis House a chyfeiriodd at y ddogfen anarferol yn manylu ar les o fis Ionawr 2020 yr oedd y Cynghorydd Driscoll wedi dweud ei bod wedi cael ei defnyddio'n dwyllodrus. Roedd yn ymwneud â'r cwmni Vale Foods a oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac roedd perchennog y cwmni hwnnw wedi sefydlu busnes newydd o'r enw Avondale. Awgrymwyd hefyd fod y Cynghorydd Driscoll wedi llofnodi les o'r fath i wneud cais am grant.

Dywedodd y Cynghorydd Driscoll, oherwydd amrywiad tenantiaeth a meddiannaeth nifer o'r safleoedd, y byddai peth o'r wybodaeth yn dyddio'n gyflym ar y pryd gan fod lesoedd byrdymor yn cael eu rhoi a oedd yn addas i denantiaid ar y pryd. Er yn ymwybodol bod angen datgan eiddo fel buddiant o ystyried y ffaith bod y Cynghorydd Driscoll wedi esbonio bod ei ymwneud â'r busnes hwnnw'n gyfyngedig a'i fod wedi rhoi rhywfaint o gymorth i'w wraig heb unrhyw fudd ariannol. Wrth dynnu sylw at y deunydd hyfforddi a ddarparwyd gan Swyddog Monitro blaenorol Bro Morgannwg, dywedodd Mr Hughes ei bod wedi dod yn amlwg bod angen datgan buddiannau partner dim ond pan oedd penderfyniad y Cyngor yn cael ei wneud a'i fod yn cael effaith ar naill ai fuddiannau ariannol neu fusnes y partner hwnnw. Nid oedd yn rhywbeth yr oedd angen i'r Cynghorydd Driscoll ddatgan yn gyfreithiol. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn bwysig nodi bod un o'r ceisiadau am grant yn enw Vale Foods ac mai un o'r materion mewn perthynas â pham y byddai Vale Foods wedi dymuno nodi eu bod yn cynnal rhyw fath o fudd dros yr eiddo oedd mewn perthynas â hawliad yswiriant a oedd heb ei gwblhau. Dywedodd y Cynghorydd Driscoll nad oedd erioed wedi gwneud hawliad ar yr eiddo hwnnw dan broses ymgeisio am grant y Coronafeirws.

Gwnaeth y Cynghorydd Driscoll dderbyn bod rhai achosion o dorri'r Cod a dywedodd Mr Broadway y byddai'n dadlau eu bod yn weddol fach. Roedd hefyd wedi cydweithredu drwy gydol yr ymchwiliad, ac roedd wedi bod yn agored wrth gael ei

holi, roedd yr holl fuddiannau wedi'u cofrestru ac roedd taliadau ardreth annomestig genedlaethol wedi'u gwneud yn ôl-weithredol.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, tynnodd y Pwyllgor Safonau yn ôl yn breifat i ystyried y mater.

Ar ôl dychwelyd, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ei fod wedi cael ei ddwyn i'w sylw gan Aelodau'r Cyngor yn ystod y trafodaethau fod gweithwyr yn cael cyfarwyddyd i ateb e-byst gan Gynghorwyr o fewn pum diwrnod.  Ni chafodd hyn ei herio gan Mr. Broadway. Dywedodd y Cadeirydd wedyn, mewn perthynas â 3 e-bost o gyfrif e-bost Bro Morgannwg y Cynghorydd Driscoll, yr ystyriwyd bod y rhain yn torri'r Cod.  Hefyd, am fethu â diweddaru'r gofrestr buddiannau a rhoi gwybod i'r Cyngor am feddiannaeth 50c Heol Holltwn a Biglis House.  Felly roedd angen i gynrychiolydd yr Ombwdsmon a chynrychiolydd y Cynghorydd Driscoll gyflwyno sylwadau mewn perthynas â pha gosbau y gallai'r Pwyllgor eu rhoi ar waith. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn annhebygol y byddai'r Pwyllgor yn ystyried atal dros dro neu atal yn rhannol ar y cam hwn, fodd bynnag, gofynnodd am glywed sylwadau gan y ddwy ochr.

Wrth ddechrau ei sylwadau, dywedodd Mr Hughes, gan ystyried ffactorau lliniarol ac sy'n gwaethygu a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru, ei fod o'r farn ei bod yn bwysig rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Driscoll wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau, er ei fod rywbryd yn flaenorol yn 2015, ac ar y pryd canfuwyd ei fod wedi torri'r Cod ar gyfer materion amrywiol a oedd yn cynnwys gwneud gwaith ar ei eiddo heb ganiatâd cynllunio a methiant i ddatgelu buddiant mewn perthynas â Chyngor Cymuned Dinas Powys.  Ar y pryd, canfuwyd ei fod wedi torri'r Cod gan y Pwyllgor Safonau a'i wahardd am fis.  Roedd yn deg dweud, meddai, fod y Cynghorydd Driscoll yn Gynghorydd profiadol ac y dylai fod wedi gwybod yn well. Dylai fod wedi bod yn gwbl ymwybodol o'i rwymedigaethau fel Aelod ac roedd unwaith eto yn deg dweud bod rhyw fath o gymhelliad ariannol o ran yr e-byst a anfonwyd.

Dywedodd Mr Hughes ei bod dim ond yn deg esbonio cyd-destun ceisio budd ariannol sef er bod y ceisiadau am grantiau wedi methu gellid nodi'r e-byst fel achosion o dorri'r Cod yng nghyd-destun gwneud ceisiadau am grant.  Dywedodd Mr Hughes nad oedd o'r farn mai ei rôl ef oedd argymell cosb benodol i'r Pwyllgor ac ni fyddai'n gwneud hynny chwaith pe bai gerbron Panel Dyfarnu Cymru.  Roedd o'r farn ei fod yn benderfyniad i'r Pwyllgor ei wneud ac er bod hanes y gorffennol beth amser yn ôl, roedd yn elfen bwysig mewn perthynas â chyd-destun yr achosion o dorri'r Cod a oedd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ar yr achlysur hwn ac, o'r herwydd, gallai niweidio enw da'r Cyngor.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd ef nac aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ymwybodol o'r ffaith bod y Cynghorydd Driscoll wedi bod yn rhan o fater blaenorol.

Mewn ymateb ac wrth gyfeirio at y rhestr o ffactorau sy'n gwaethygu a lliniarol y byddai Panel Dyfarnu Cymru yn eu hystyried wrth ystyried materion o'r fath, dywedodd Mr Broadway nad oedd y ffactorau yn berthnasol dan yr amgylchiadau presennol mewn rhai achosion gan nad oedd y Pwyllgor wedi dod o hyd i doriadau ar rai agweddau.  Roedd hefyd yn werth tynnu sylw at y ffaith ei fod wedi dweud bod

y Cynghorydd Driscoll yn berson call a'i fod wedi bod yn ddeiliad swydd gyhoeddus ers peth amser. Roedd hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac wedi bod ers rhyw 16 mlynedd. Roedd ei ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Safonau cyn hynny rhyw 9 mlynedd yn ôl ac nid oedd wedi bod gerbron y Pwyllgor Safonau ers hynny. Roedd hefyd yn Aelod gweithgar o'r Cyngor a'i gymuned a chyfeiriodd at y cymorth a roddwyd gan y Cynghorydd Driscoll i'r gymuned yn dilyn digwyddiad llifogydd difrifol ym mis Rhagfyr 2022 pan drefnodd dros 100 o wirfoddolwyr i gynorthwyo pobl yr effeithiodd y llifogydd arnynt ychydig cyn y Nadolig. Roedd yn aml yn codi sbwriel yn ei gymuned ac yn ceisio cadw ei fan cymunedol yn lân ac yn glir o sbwriel ac roedd yn falch o’i gymuned. Roedd y Cynghorydd Driscoll hefyd yn ymwneud yn helaeth â Chlwb Pêl-droed Dinas Powys ac roedd yn cynorthwyo gyda chodi arian ar gyfer pêl-droed llawr gwlad. Anogodd y Pwyllgor Safonau i ystyried rhai o'r toriadau a gododd yn ddiofalwch, ac nad oedd ymgais i ennill budd ariannol. Dywedodd fod y toriadau, yn ei farn ef, yn gymharol fach a gofynnodd i'r Pwyllgor Safonau dderbyn bod y toriadau wedi’u cyflawni fel camgymeriad gwirioneddol yn hytrach nag ymgais i ennill elw personol a gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried pasio'r gosb leiaf bosibl y gallai. Roedd yn ymwybodol y gallai toriadau posib ddenu cosb, a cherydd yn ei farn ef oedd yn fwy priodol mae'n debyg.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, aeth y Pwyllgor Safonau ati’n breifat i ystyried y sylwadau a dderbyniwyd.

Ar ôl dychwelyd, dywedodd y Cadeirydd, gan roi sylw i adroddiad Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon, sylwadau Cynrychiolydd yr Ombwdsmon yn y cyfarfod, sylwadau'r Cynghorydd Driscoll a'i gynrychiolydd, a'r ffactorau lliniarol ac sy’n gwaethygu a gyflwynwyd yn y cyfarfod, yn unol â'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Honiadau a Wnaed yn Erbyn Cynghorwyr ac a Atgyfeiriwyd i’r Pwyllgor Safonau ("y Weithdrefn") mai penderfyniad y Pwyllgor Safonau oedd bod yr honiadau a wnaed yn erbyn y Cynghorydd Driscoll wedi cael eu profi’n rhannol i foddhad y Pwyllgor, ac wedyn.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Cynghorydd Driscoll wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 4 (d) y Cod Ymddygiad Aelodau sy'n nodi bod “Rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy’n debygol o beryglu, didueddrwydd y rhai sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran”, i'r graddau bod

- Gweithredoedd y Cynghorydd Driscoll yn ymwneud â defnyddio cyfeiriad e-bost y Cyngor ar dri achlysur ar gyfer buddiannau personol.

(2) BOD y Cynghorydd Driscoll wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 6 (1)(a) y Cod Ymddygiad Aelodau sy'n datgan "Rhaid i chi beidio ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar eich Cyngor" i'r graddau bod

- y Cynghorydd Driscoll wedi methu â diweddaru'r Cyngor am feddiannu 50C Heol Holltwn a oedd â'r potensial i effeithio ar y berthynas gydfuddiannol o ymddiriedaeth a fodolai rhwng y Cyngor, ei Aelodau etholedig, a'r cyhoedd.

(3) BOD y Cynghorydd Driscoll wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 15 (1)(b) y Cod Ymddygiad Aelodau "Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'ch ethol neu eich penodi i'r swydd (os yw hynny'n ddiweddarach), gofrestru eich buddiannau personol, pan fyddant yn dod o fewn categori a nodir ym mharagraff 10 (2)(a), yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich awdurdod" i'r graddau bod

- y Cynghorydd Driscoll wedi methu â diweddaru'r Cyngor am feddiannu Uned 5 Biglis House a oedd â'r potensial i effeithio ar y berthynas gydfuddiannol o ymddiriedaeth a fodolai rhwng y Cyngor, ei Aelodau etholedig, a'r cyhoedd.

(4) BOD, gan ystyried y penderfyniadau uchod a'r ffactorau gwaethygol yn ymwneud â phenderfyniad blaenorol y Pwyllgor Safonau, a arweiniodd at atal y Cynghorydd Driscoll am fis ar yr achlysur hwnnw, a oedd yn cynnwys methiant i wneud datganiad, y Cynghorydd Driscoll yn cael ei atal rhag bod yn Aelod o Gyngor Bro Morgannwg am gyfnod o dri mis.

(5) Y hysbysir y Cynghorydd Driscoll o'i hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i:

Y Cofrestrydd
Panel Dyfarnu Cymru
Adeiladau’r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LE1 5HA

a bod yn rhaid i'r hysbysiad apelio nodi:

- y rhesymau dros apelio, ac
- a yw'r person sy'n rhoi’r hysbysiad apelio’n cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

(6) Yn amodol ar apêl (os o gwbl), cyhoeddir canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau fel y manylir arnynt ym Mhenderfyniadau (1) – (4) uchod yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1-4) O ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i’r cyfarfod o benderfyniadau'r Pwyllgor, y ffactorau lliniaru a gyflwynwyd gan Mr. Joseph Broadway ar ran y Cynghorydd Driscoll a'r ffactorau lliniaru a gwaethygol a gyflwynwyd gan gynrychiolydd yr Ombwdsmon, Mr. Gwydion Hughes, yn y cyfarfod, ac er mwyn hyrwyddo a chynnal Safonau Moesegol Mewn Bywyd Cyhoeddus.

(5-6) Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd.